Fersiwn	6
Dyddiad Diwygio Diwethaf	Mawrth 2023



HS 6

Polisi Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith

RHONDDA CYNON TAF

RHEOLI'R DDOGFEN	
ENW'R POLISI	**Polisi Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith**
Adran	Adnoddau Dynol
Rhif ffôn	01443 425524
Dyddiad Cychwynnol Cyflwyno'r Polisi	1996
Swyddog Adolygu	Stephen Humphreys
Dyddiad Adolygu	Mawrth 2025
Dyddiad yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb	2008
HANES DIWYGIO	
Dyddiad	Diwygiwyd gan
1996	Gerwyn Hogben
Mawrth 2010	Mike Murphy
Awst 2016	Mike Murphy
Gorffennaf 2018	Mike Murphy
Mawrth 2021	Mike Murphy
Mawrth 2023	Stephen Humphreys
CYMERADWYO'R DDOGFEN	
Mae'r ddogfen yma wedi cael ei chymeradwyo gan:	Dyddiad Cymeradwyo
Uwch-reolwyr Adnoddau Dynol	
Rheolwyr y Cyngor	
Y Cabinet	

CYNNWYS

1. Cyflwyniad 1

2. Datganiad Polisi 1

Canllawiau Polisi

3. Asesiad Risg 2

4. Trefniadau Iechyd a Diogelwch 6

5. Rhaglen Cadw Golwg ar Iechyd 6

6. Cymorth Iechyd a Diogelwch 7

7. Gweithdrefnau ar gyfer Perygl Difrifol a Pheryglau Buan ar gyfer Meysydd o Berygl 8

8. Gwybodaeth i Weithwyr 8

9. Cydweithio a Chydlynu Ymhlith Cyflogwyr 9

10. Gweithwyr sy'n Ymweld â'r Safle 9

11. Materion Gallu a Hyfforddiant 10

12. Dyletswyddau Gweithwyr 10

13. Gweithwyr Dros Dro 11

14. Hawliau Cynrychiolwyr Diogelwch Undebau Llafur 11

15. Menywod Beichiog yn y Gwaith 11

16. Cyngor 12

Rhestr Wirio i Reolwyr 13

1. CYFLWYNIAD

1.1 Mae'r polisi yma wedi'i baratoi mewn ymateb i'r Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith, a gafodd eu cyflwyno o dan ddarpariaethau Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith etc. 1974.

1.2 Mae'r dyletswyddau sydd wedi'u gosod gan y Rheoliadau Rheoli yn **rhai cyffredinol ac yn eang eu natur** ac mae hynny'n golygu eu bod nhw'n gorgyffwrdd â dyletswyddau deddfwriaeth arall. Pan fydd gorgyffwrdd, fel rheol, bydd cydymffurfio â'r gofynion hynny sydd yn y ddeddfwriaeth fwy penodol yn ddigonol i gydymffurfio â'r ddyletswydd yn y Rheoliadau Rheoli.

1.3 Pan fydd dyletswyddau o dan y Rheoliadau Rheoli yn mynd y tu hwnt i'r rheini yn y ddeddfwriaeth fwy penodol, bydd angen mesurau ychwanegol er mwyn cydymffurfio'n llawn â'r Rheoliadau Rheoli.

2. DATGANIAD POLISI

2.1 Mae'r polisi yma'n amlinellu'r gweithdrefnau cyffredinol sy'n ofynnol i sicrhau bod rheolaeth gadarn ar iechyd a diogelwch yn cael ei rhoi ar waith. Mae hefyd yn sicrhau iechyd a diogelwch y bobl sy'n cael eu cyflogi gan y Cyngor, yn ogystal ag iechyd a diogelwch pobl eraill. Bydd i ba raddau y caiff yr gweithdrefnau yma eu gweithredu yn dibynnu ar faint y risg gysylltiedig.

2.2 Cyfrifoldeb pob Cyfarwyddwr neu Bennaeth Gwasanaeth yw rhoi darpariaethau'r polisi yma ar waith a pharatoi strategaeth weithredu.

CANLLAWIAU POLISI

3. ASESIAD RISG

3.1 Rhaid cynnal asesiadau risg addas a digonol sy'n ymwneud â'r risg i iechyd a diogelwch staff ac unrhyw un arall, e.e. aelodau o'r cyhoedd a allai gael eu heffeithio gan waith y Cyngor.

3.2 **Pwrpas Asesiad Risg** – pwrpas yr asesiad yw nodi'r camau angenrheidiol er mwyn cydymffurfio â gofynion y darpariaethau statudol perthnasol, er enghraifft, nodi'r mesurau ataliol ac amddiffynnol sydd eu hangen i reoli'r perygl sydd wedi'i amlygu yn yr asesiad risg.

3.3 **Cymhwystra** – rhaid penodi unigolion cymwys i gynnal asesiadau risg. Rhaid i'r aseswr fod â dealltwriaeth o'r gweithle, y gallu i wneud penderfyniadau cadarn a gwybodaeth am y modd ymarferol gorau i leihau'r risgiau sydd wedi'u nodi.

Dydy cymhwystra yn yr ystyr yma ddim yn gofyn am lefel benodol o gymhwyster, ond mae'n gofyn am gyfuniad o wybodaeth, sgiliau, profiad a rhinweddau personol, gan gynnwys y gallu i adnabod cyfyngiadau ei gymhwystra ei hun (edrychwch ar Adran 6 o'r Canllawiau Polisi).

3.4 **Perygl a Risg** – gan fod asesiad risg yn cynnwys nodi'r peryglon sydd ynghlwm wrth bob gweithrediad ac yna gwerthuso maint y risgiau dan sylw, mae'n hanfodol deall beth mae'r termau yma'n ei olygu:

- perygl yw rhywbeth sydd â'r potensial i achosi niwed neu anaf;
- mae 'risg' yn mynegi'r tebygolrwydd y bydd y niwed o berygl penodol yn cael ei wireddu ac i ba raddau.

Dyma rai enghreifftiau o beryglon a risgiau cysylltiedig:

- trin sylweddau cemegol – efallai y bydd perygl yn sgil dod i gysylltiad â chemegyn;
- cerdded ar loriau – efallai y bydd risg o lithro, baglu neu gwympo;
- dringo i fyny ac i lawr ysgolion – efallai y bydd risg o gwympo oddi ar yr ysgol neu risg o'r ysgol yn cwympo;
- gweithredu olwyn sgraffiniol - efallai y bydd risg o fod mewn cysylltiad â'r olwyn neu o'r olwyn yn ffrwydro;
- defnyddio offer trydanol – efallai y bydd risg o siociau trydan neu losgiadau.

3.5 **Cwmpas a Maint Asesiad** – er mwyn cynnal asesiad risg digonol, mae'n bwysig defnyddio dull strwythuredig. Yn benodol, dylai asesiad risg gynnwys y canlynol:

- sicrhau ei fod yn mynd i'r afael â'r holl risgiau neu beryglon perthnasol:

  - nodi peryglon;
  - ystyried deddfwriaeth benodol;
  - pennu'r risgiau o'r peryglon sydd wedi'u nodi a'u blaenoriaethu;
  - bod yn drefnus wrth ystyried y peryglon a'r risgiau;
  - sicrhau bod pob agwedd ar waith yn cael ei hadolygu;
  - anwybyddu risgiau sydd heb effaith.

- mynd i'r afael â'r hyn sy'n digwydd mewn gwirionedd yn y gweithle:

  - cofiwch**,** gall yr hyn sy'n digwydd mewn gwirionedd fod yn wahanol i'r hyn sydd wedi'i nodi yn y llawlyfr;
  - meddyliwch am y gweithrediadau mwy anarferol;
  - mae torri ar draws gweithrediadau yn aml yn achosi damweiniau - felly cofiwch ystyried sut mae gweithrediadau o'r fath yn cael ei reoli.

- sicrhau bod pob gweithiwr a phobl eraill a allai gael eu heffeithio yn cael eu hystyried – peidiwch ag anghofio glanhawyr, staff cynnal a chadw, gwarchodwyr diogelwch ac ymwelwyr.

  Nodi grwpiau o weithwyr a allai fod mewn perygl arbennig, er enghraifft, gweithwyr ifainc a dibrofiad, y rhai sy'n gweithio ar eu pennau eu hunain, gweithwyr anabl;

- ystyried y mesurau ataliol ac amddiffynnol presennol.

3.6 **Mesurau Ataliol ac Amddiffynnol** – wrth benderfynu pa gamau ataliol ac amddiffynnol sydd angen eu cymryd yn dilyn yr asesiad risg, dylai'r egwyddorion canlynol fod yn berthnasol:

- os yw'n bosibl, cofiwch osgoi risg yn gyfan gwbl, er enghraifft, trwy beidio â defnyddio sylwedd penodol;
- rhaid mynd i'r afael â risgiau wrth eu ffynhonnell, er enghraifft, llawr llithrig – sychwch y llawr yn hytrach na gosod arwydd sy'n rhybuddio;
- lle bo hyn yn bosibl, cofiwch addasu'r gwaith i'r unigolyn;

- manteisiwch ar gynnydd technegol a thechnolegol, sydd fel rheol yn fwy diogel;
- mae angen i fesurau rheoli risg ffurfio polisi a dull cydlynol er mwyn lleihau risgiau nad oes modd eu hatal neu'u hosgoi yn gyfan gwbl yn raddol;
- rhowch flaenoriaeth i fesurau sy'n diogelu'r gweithlu cyfan, gan sicrhau'r budd mwyaf;
- sicrhewch fod gweithwyr yn deall yr hyn sydd raid iddyn nhw ei wneud - rhowch wybod iddyn nhw;
- mae angen i brosesau osgoi, atal a lleihau risgiau fod yn rhan gymeradwy o ymagwedd ac agweddau rheoli ar bob lefel a rhaid iddyn nhw fod yn berthnasol ymhob math o waith.

3.7 **Adolygu Asesiadau** – rhaid sicrhau bod asesiadau yn cael eu diweddaru'n rheolaidd a'u hadolygu o bryd i'w gilydd er mwyn sicrhau eu bod nhw'n parhau i fod yn ddilys. Dyma'r ffactorau y dylech chi eu hystyried wrth benderfynu pryd y dylech chi gynnal adolygiad:

- newid yn y ddeddfwriaeth;
- newid yn y dulliau rheoli;
- unrhyw newid sylweddol yn y gwaith sy'n cael ei wneud;
- trosglwyddo i dechnoleg newydd;
- ar ôl digwyddiad neu ddamwain;
- unrhyw reswm arall i amau nad yw'r asesiad gwreiddiol yn ddilys bellach neu fod modd ei wella.

Cofiwch fod rhaid ystyried asesiad risg yn 'ddogfen fyw' ac oherwydd hynny, rhaid ei adolygu o bryd i'w gilydd.

3.8 **Asesiadau Generig** – mae modd i chi baratoi asesiad risg 'generig' neu 'enghreifftiol' lle mae gwaith tebyg yn cael ei wneud mewn gweithleoedd tebyg. Dylai'r asesiad generig fod yn gallu cyfrif am y mwyafrif o beryglon a risgiau sy'n codi, ond byddai modd gwneud newidiadau/addasiadau bach i ddarparu ar gyfer amgylchiadau unigol.

Rhaid i'r dull o asesu generig fod yn addas i natur y gwaith.

3.9 **Asesu o dan reoliadau eraill** – mae rheoliadau eraill hefyd, ar wahân i'r Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith, sy'n cynnwys gofynion penodol ar gyfer asesu risg ond sy'n mynd i'r afael **yn benodol** â'r peryglon a'r risgiau sy'n cael eu cynnwys yn y rheoliadau hynny ac yn cynnwys yn rhannol y ddyletswydd i gynnal asesiadau o dan y Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith. Lle mae asesiad wedi'i gynnal eisoes o dan y rheoliadau eraill, does dim angen

ei ailadrodd cyn belled â'i fod yn parhau'n ddilys, ond rhaid ymdrin â phob risg sylweddol.

Dyma enghreifftiau o asesiadau risg penodol sy'n berthnasol i reoliadau eraill:

- Rheoliadau Rheoli Plwm yn y Gwaith;
- Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio;
- Rheoliadau Rheoli Asbestos;
- Rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd;
- Rheoliadau Rheoli Sŵn yn y Gwaith;
- Rheoliadau Iechyd a Diogelwch (Cyfarpar Sgrin Arddangos);
- Rheoliadau Gweithrediadau Codi a Chario;
- Rheoliadau Cyfarpar Diogelu Personol yn y Gwaith;
- Rheoliadau Adeiladu (Diogelu'r Pen);
- Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005.

3.10 **Cofnodi Asesiadau** – rhaid atgyfnerthu asesiad drwy gynnal cofnodion cywir (gofyniad cyfreithiol lle mae mwy na phum gweithiwr), ac eithrio pan fo'r asesiad yn syml ac yn amlwg a bod modd ei ailadrodd a'i esbonio'n hawdd. Dylai'r cofnodion gynnwys o leiaf yr wybodaeth ganlynol:

- disgrifiad o'r broses/gwaith sy'n cael ei hasesu/asesu;
- y peryglon arwyddocaol a gafodd eu nodi yn yr asesiad;
- y mesurau rheoli presennol sydd ar waith ac i ba raddau maen nhw'n rheoli'r risg;
- gweithredu pellach sy'n angenrheidiol i reoli'r risg;
- unigolion a all gael eu heffeithio gan y risgiau arwyddocaol yma;
- dyddiad yr asesiad a, lle bo'n briodol, y dyddiad adolygu nesaf;
- enw'r person cymwys sy'n cynnal yr asesiad.

3.11 **Gosod Blaenoriaethau** – Dylai'r asesiad risg eich galluogi i flaenoriaethu mesurau rheoli. Yn y rhan fwyaf o achosion bydd yn amlwg i'r unigolyn cymwys bod angen rhoi sylw i rai risgiau cyn ymateb i risgiau eraill. Os bydd ansicrwydd, caiff 'sgôr risg' ei bennu ar gyfer pob perygl sydd wedi'i nodi drwy ddefnyddio fformiwla syml, fel yr un sydd wedi'i nodi isod.

Y sgôr risg yw effaith y perygl wedi'i lluosi â'r tebygolrwydd o niwed. Dyma enghraifft:

Difrifolde / Tebygolrwy	Gradd Isel o Niwed	Gradd Ganolig o Niwed	Gradd Uchel o Niwed
Anhebygol o Ddigwydd	Risg Isel (Dibwys)	Risg Gymedrol	Risg Gymedrol
Tebygol o ddigwydd	Risg Isel	Risg Gymedrol	Risg Uchel

Rydyn ni'n rhagweld bydd yr angen i roi sgôr er mwyn blaenoriaethu mesurau adfer dim ond yn berthnasol mewn nifer fach o achosion, os, er enghraifft, yw'r ansicrwydd sydd wedi'i grybwyll eisoes yn bodoli.

3.12 **Pwysig** – mae'n hanfodol sylweddoli bod cynnal asesiadau risg yn faes allweddol wrth sicrhau iechyd a diogelwch gweithwyr ac arferion rheoli da, ac mai sylfaen rheoli iechyd a diogelwch ydyw.

Os nad oes asesiad risg wedi cael ei gynnal, boed hynny'n benodol neu'n generig, ac os oes risg arwyddocaol yn gysylltiedig â'r gwaith, rhaid i weithiwr gysylltu â'i reolwr/oruchwyliwr. Bydd y rheolwr/goruchwyliwr yn trefnu bod asesiad yn cael ei gynnal a bod egwyddorion rheoli risg yn cael eu gweithredu o ganlyniad.

4. TREFNIADAU IECHYD A DIOGELWCH

4.1 Ar ôl cynnal yr asesiad risg, rhaid rhoi'r trefniadau perthnasol ar waith er mwyn cynllunio, trefnu, rheoli, monitro ac adolygu systemau sy'n gwarchod iechyd a diogelwch yn y gwaith.

4.2 Dylid integreiddio trefniadau iechyd a diogelwch o'r fath i bob system reoli; bydd y rhain yn nodi blaenoriaethau, pennu amcanion, sefydlu strwythurau trefniadaeth angenrheidiol a sicrhau bod penderfyniadau a gweithredoedd yn cael eu rhoi ar waith, eu cynnal a'u hadolygu.

4.3 Mae arweiniad manwl ar gael yng nghyhoeddiad yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch 'Rheoli ar gyfer Iechyd a Diogelwch (HSG65)'.

5. RHAGLEN CADW GOLWG AR IECHYD

5.1 Rhaid cadw golwg ar iechyd fel y bo'n briodol, gan ystyried y risgiau i iechyd a diogelwch sydd wedi'u nodi yn yr asesiadau risg. Os yw'r risg yn gysylltiedig â dod i gysylltiad â sylwedd sydd wedi'i gynnwys yn y Rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH), er enghraifft, neu sydd wedi'i gynnwys mewn rheoliadau diogelwch

penodol eraill, yna dylai gweithdrefnau goruchwylio iechyd fod yn eu lle eisoes. Os na, rhaid cymryd y camau brys perthnasol.

5.2 Fel canllaw, dylid cadw golwg ar iechyd lle mae'r asesiad yn dangos bod y meini prawf canlynol yn berthnasol:

- os yw'n ofynnol gan ddeddfwriaeth benodol;
- os oes yna glefyd/cyflwr iechyd anffafriol sy'n gysylltiedig â'r gwaith dan sylw;
- os oes technegau dilys ar gael i ganfod arwyddion o'r afiechyd neu'r cyflwr;
- os oes tebygolrwydd rhesymol y gall y clefyd neu'r cyflwr ddigwydd o dan yr amodau gwaith penodol;
- os yw'r wyliadwriaeth yn debygol o hyrwyddo diogelwch iechyd gweithiwr ymhellach.

5.3 Prif fantais cadw golwg ar iechyd, a'i amcan oherwydd hynny, yw canfod cyflyrau iechyd niweidiol cyn gynted ag y bo modd er mwyn atal niwed pellach. Yn ogystal â hynny, dylai'r canlyniadau gael eu defnyddio yn fodd i wneud y canlynol:

- nodi effeithiolrwydd mesurau rheoli;
- rhoi adborth ynglŷn â chywirdeb yr asesiad risg;
- adnabod a diogelu unigolion sydd mewn perygl lefel uwch.

5.4 Pan fydd cadw golwg ar iechyd yn briodol, yna, yn y rhan fwyaf o achosion, dylai barhau am weddill cyfnod cyflogaeth y gweithiwr oni bai fod y risg honno yn un dymor byr.

5.5 Dim ond person cyfrifol a chymwys a ddylai gadw golwg ar iechyd a chynnal archwiliadau. Dylid ceisio cyngor arbenigol ynglŷn â natur ac amlder y wyliadwriaeth, er enghraifft, o'r Uned Iechyd a Lles Galwedigaethol, oni bai fod arweiniad yn cael ei roi mewn man arall, e.e. Rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd.

5.6 Pan fydd angen cadw golwg ar iechyd, rhaid cadw cofnodion unigol a all fod yn rhan o gofnod iechyd neu bersonél sy'n bodoli eisoes.

6. CYMORTH IECHYD A DIOGELWCH

6.1 Rhaid penodi unigolion cymwys i helpu i ddyfeisio a chymhwyso'r mesurau sydd eu hangen i gydymffurfio â gofynion y rheoliadau iechyd a diogelwch.

6.2 Bydd yr unigolion sy'n cael eu penodi yn cael eu hystyried yn gymwys ar ôl iddyn nhw ymgymryd â hyfforddiant digonol a phan fydd gyda nhw ddigon o brofiad neu wybodaeth a rhinweddau eraill i'w galluogi nhw i helpu i weithredu'r mesurau sydd angen i'r Cyngor eu rhoi ar waith er mwyn cydymffurfio â'r darpariaethau statudol perthnasol. Rhaid i unigolion cymwys fod yn effro i'w cyfyngiadau eu hunain.

7. GWEITHDREFNAU AR GYFER PERYGL DIFRIFOL A PHERYGL BUAN AC AR GYFER MEYSYDD O BERYGL

7.1 Rhaid sefydlu gweithdrefnau addas a'u dilyn yn achos perygl difrifol a pherygl buan i'r rheiny sy'n gweithio i'r Cyngor.

7.2 Rhaid enwebu nifer ddigonol o bobl gymwys i roi'r gweithdrefnau brys ar waith lle mae hyn yn golygu gwacáu'r adeilad, er enghraifft, risg o dân (a rhybuddio o fomiau, o bosibl). Ond bydd rhai gweithleoedd yn peri eu risgiau ychwanegol eu hunain (er enghraifft, rhyddhau nwyon gwenwynig). Lle bo angen cyfyngu mynediad i rai ardaloedd ar sail iechyd a diogelwch, rhaid i weithwyr beidio â chael mynediad oni bai eu bod nhw wedi cael cyfarwyddiadau digonol ynglŷn ag iechyd a diogelwch.

7.3 Rhaid hysbysu gweithwyr ac eraill sy'n agored i berygl difrifol a pherygl buan o natur y perygl a'r camau amddiffyn, cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol.

7.4 Rhaid i'r gweithdrefnau sydd ar waith ganiatáu i'r rheiny sy'n agored i berygl difrifol a pherygl buan beidio â gweithio a chyrraedd man diogel, a chael eu hatal rhag dychwelyd i'r gwaith tra bydd perygl o'r fath yn parhau.

8. GWYBODAETH I WEITHWYR

8.1 Bydd yr asesiad risg yn helpu i nodi gwybodaeth sydd raid ei darparu ar gyfer gweithwyr o dan ddeddfwriaeth benodol, yn ogystal â gwybodaeth bellach sy'n berthnasol i risgiau i iechyd a diogelwch gweithwyr. Mae rhaid darparu hyfforddiant a gwybodaeth briodol ar gyfer y gweithwyr o ran y canlynol:

- y risgiau a gafodd eu nodi yn yr asesiad;
- y mesurau i atal neu ddiogelu rhag y risgiau yma;
- y gweithdrefnau i'w dilyn yn achos perygl difrifol neu berygl buan;
- pwy yw'r unigolion cymwys sydd wedi'u penodi i oruchwylio gweithdrefnau brys;

- y risgiau sy'n cael eu hachosi gan bobl eraill sy'n gweithio ar y safle (er enghraifft, rhoi gwybod i weithwyr am risgiau oherwydd gwaith contractwyr).

8.2 Rhaid rhoi gwybodaeth gynhwysfawr a pherthnasol i bawb sydd ar gontractau cyfnod penodol, gweithwyr dan hyfforddiant a gweithwyr cyflogwyr eraill sy'n rhannu'r eiddo.

8.3 Rhaid rhoi ystyriaeth arbennig i bobl ag anawsterau iaith neu anableddau corfforol a all effeithio ar y ffordd maen nhw'n derbyn gwybodaeth, er enghraifft, pobl â nam ar eu golwg.

9. CYDWEITHIO A CHYDLYNU YMHLITH CYFLOGWYR

9.1 Lle mae gweithwyr y Cyngor yn rhannu gweithle gyda gweithwyr eraill (dros dro neu'n barhaol), yna, rhaid sicrhau'r canlynol:

- eu bod nhw'n cydweithio â'i gilydd ar y safle 'cyn belled ag y bo angen' i alluogi pob un i gydymffurfio â'u dyletswyddau statudol;
- eu bod nhw'n cymryd 'pob cam rhesymol' i gydlynu mesurau er mwyn cydymffurfio â chyfraith iechyd a diogelwch;
- eu bod nhw'n cymryd 'pob cam rhesymol' i hysbysu ei gilydd am risgiau cysylltiedig â'u gwaith.

10. GWEITHWYR SY'N YMWELD Â'R SAFLE

10.1 Rhaid darparu gwybodaeth gynhwysfawr ar gyfer gweithwyr cyflogwyr eraill sy'n gweithio ar y safle neu'n ymweld ag ef. Dyma'r wybodaeth:

- risgiau i iechyd a diogelwch gweithwyr sy'n gysylltiedig â'r adeilad neu'r gwaith;
- camau sydd wedi'u cymryd er mwyn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth, sy'n ymwneud â gweithwyr sy'n ymweld â'r lle;
- gweithredu'r gweithdrefnau gwacáu;
- nodi unigolion enwebedig i weithredu'r gweithdrefnau gwacáu.

10.2 Byddai gweithwyr o'r fath yn cynnwys, er enghraifft, contractwyr, peirianwyr cynnal a chadw, staff asiantaeth a 'gweithwyr dros dro / achlysurol'.

11. MATERION GALLU A HYFFORDDIANT

11.1 Rhaid peidio â rhoi tasgau i weithwyr sydd y tu hwnt i'w gallu o ran iechyd a diogelwch. Cyn rhoi tasgau i weithwyr, rhaid ystyried gallu corfforol a meddyliol gweithiwr, yn ogystal â'r hyfforddiant mae wedi ymgymryd ag ef, ei wybodaeth a'i brofiad.

11.2 Dyma'r prif feysydd i'w cynnwys mewn hyfforddiant iechyd a diogelwch:

- pan gaiff gweithwyr eu recriwtio (hyfforddiant ymsefydlu);
- pan fydd risgiau lefel uwch neu newydd;
- pan fydd unigolyn yn trosglwyddo i swydd arall neu pan fydd ei gyfrifoldebau yn newid;
- pan fydd offer newydd yn cael ei gyflwyno neu pan fydd y defnydd o offer presennol yn newid;
- pan fydd technoleg newydd yn cael ei chyflwyno;
- pan fydd system newydd o weithio yn cael ei chyflwyno neu pan fydd newid yn y system bresennol.

11.3 Rhaid rhoi hyfforddiant gloywi fel y bo'n briodol, a dylid ei addasu i ystyried newidiadau mewn amgylchiadau.

11.4 Dylid cynnal hyfforddiant yn ystod oriau gwaith arferol, ond os oes angen hyfforddi y tu allan i oriau arferol, rhaid ystyried hyn yn estyniad i amser y gweithiwr yn y gwaith.

12. DYLETSWYDDAU GWEITHWYR

12.1 Mae'r ddyletswydd ar gyflogwyr o ran defnyddio peiriannau ac offer ac ati yn cael ei chynnwys yn ddigonol yn Adran 7 o Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith etc 1974.

12.2 Rhaid i weithwyr ddod â'r canlynol i sylw eu rheolwr neu'r person cymwys:

- unrhyw sefyllfa waith sy'n peri perygl difrifol ac uniongyrchol i iechyd a diogelwch; ac
- unrhyw ddiffygion yn nhrefniadau amddiffyn y cyflogwr mewn perthynas â materion iechyd a diogelwch.

12.3 Dylai gweithwyr roi gwybod am bethau y maen nhw wedi cael hyfforddiant ynglyn â nhw neu am bethau y mae gyda nhw wybodaeth amdanyn nhw yn unig. Felly, er enghraifft, fydd dim disgwyl i weithwyr roi gwybod am sefyllfa beryglus na chyfarpar diffygiol nad ydyn nhw wedi cael hyfforddiant i'w hadnabod.

13. GWEITHWYR DROS DRO

13.1 Rhaid hysbysu gweithwyr dros dro a'u cyflogwyr (neu asiantaethau cyflogi) am unrhyw sgiliau, cymwysterau neu ofynion arbennig sydd eu hangen i'w galluogi i weithredu'n ddiogel a heb risgiau i iechyd.

13.2 Rhaid rhoi gwybod am unrhyw ofyniad o ran cadw golwg ar iechyd.

13.3 Rhaid i unrhyw wybodaeth gael ei darparu cyn i'r unigolyn gychwyn ei ddyletswyddau.

14. HAWLIAU CYNRYCHIOLWYR DIOGELWCH UNDEBAU LLAFUR

14.1 Rhaid i gynrychiolwyr diogelwch undebau llafur fod â'r hawliau canlynol:

(a) rhaid ymgynghori â nhw mewn da bryd ynglŷn â'r canlynol:

- unrhyw fesur a allai effeithio'n sylweddol ar iechyd a diogelwch gweithwyr y mae'r cynrychiolydd diogelwch yn eu cynrychioli;
- penodi 'unigolion cymwys' i roi cymorth iechyd a diogelwch i'r cyflogwr;
- penodi unigolion i oruchwylio gweithdrefnau brys;
- unrhyw wybodaeth iechyd a diogelwch sy'n cael ei rhoi i weithwyr y mae'r cynrychiolwyr diogelwch yn eu cynrychioli;
- paratoi a threfnu hyfforddiant iechyd a diogelwch;
- effeithiau iechyd a diogelwch technolegau newydd - rhaid ymgynghori â'r cynrychiolwyr diogelwch o'r cam cynllunio.

(b) rhaid i'r cyflogwr ddarparu unrhyw gyfleusterau a chymorth sydd eu hangen arnyn nhw yn rhesymol i gyflawni eu dyletswyddau diogelu.

15. MENYWOD BEICHIOG YN Y GWAITH

15.1 Rhaid cynnal asesiadau risg penodol lle gall menywod o oedran geni neu famau newydd neu feichiog fod mewn perygl oherwydd proses waith, amod gweithio neu gyfrwng ffisegol, cemegol neu fiolegol.

Noder: Mae 'mamau newydd neu feichiog' yn golygu menywod sy'n feichiog, sydd wedi rhoi genedigaeth yn ddiweddar neu sy'n bwydo o'r fron.

15.2 Os na all mesurau sy'n ofynnol gan ddeddfwriaeth iechyd a diogelwch arall reoli'r risgiau sydd wedi'u nodi, rhaid i chi newid yr amodau gwaith, neu oriau gwaith y fenyw (heb golli cyflog), neu mewn achosion eithafol, atal y fenyw rhag gweithio er mwyn osgoi'r risg.

15.3 Gall mamau newydd neu feichiog gael eu hatal rhag gweithio gyda'r nos hefyd, os yw ymarferydd meddygol cofrestredig neu fydwraig yn llofnodi tystysgrif sy'n datgan y byddai'r gwaith yn effeithio ar eu hiechyd neu'u diogelwch.

15.4 Mae rhai eithriadau yn bodoli lle nad yw'r fenyw wedi rhoi hysbysiad ysgrifenedig o'i chyflwr neu wedi methu â chyflwyno'r dystysgrif wedi'i llofnodi ar gyfer ei hatal rhag gweithio gyda'r nos.

(I gael rhagor o wybodaeth, darllenwch y ddogfen bolisi 'Menywod Beichiog yn y Gwaith - HS8')

16. CYNGOR

16.1 Mae modd cael cyngor ar weithredu'r polisi yma oddi wrth y Garfan Iechyd a Diogelwch, Adnoddau Dynol, Tŷ Elái, Trewiliam, CF40 1NY. Rhif ffôn: 01443 425531.

Mae croeso i chi gyfathrebu â ni yn y Gymraeg /
You are welcome to communicate with us in Welsh

HS6

RHESTR WIRIO I REOLWYR

	✓ Fel y bo'n briodol		
	Dd/ B	Do/ Ydy/ Oes	Naddo/ Nac ydy/ Nac oes
• A gynhaliwyd asesiadau risg addas a digonol o'r risgiau i iechyd a diogelwch gweithwyr ac unrhyw un arall a all gael ei effeithio gan waith y Cyngor?			
• Oes camau wedi'u cymryd o ganlyniad i'r asesiad i leihau'r risg?			
• Oes trefniadau ar waith i sicrhau bod iechyd a diogelwch yn cael eu rheoli'n effeithiol? * Rhaid i is-adrannau ddefnyddio cyhoeddiad yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch 'Rheoli ar gyfer Iechyd a Diogelwch - HSG65' i sicrhau eu bod nhw'n rheoli iechyd a diogelwch yn gywir.			
• Lle bo'n briodol, oes trefniadau ar waith i sicrhau bod y sefyllfa o ran iechyd yn cael sylw parhaol, gan ystyried y risgiau i iechyd a diogelwch sydd wedi'u nodi yn yr asesiad risg? (Rhaid cyfeirio at Bolisi HS3 - Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd, Polisi HS 7 - Rheoli Sŵn yn y Gwaith a Pholisi HS 26 - Syndrom Dirgryniad y Llaw a'r Fraich.)			
• Ydy unigolion cymwys wedi'u pennu i helpu i sicrhau bod y mesurau sydd eu hangen i gydymffurfio â gofynion rheoliadau iechyd a diogelwch yn cael eu bodloni?			
• Oes gweithdrefnau yn eu lle ac ydyn nhw'n cael eu dilyn pan fydd perygl difrifol a buan i bobl yn y gwaith? Enghreifftiau o'r uchod yw gweithdrefnau ar gyfer gwacáu adeilad mewn achos o dân neu rybudd bom.			
• Ydy'r gweithwyr ac eraill yn cael gwybodaeth am y risgiau sydd wedi'u nodi yn yr asesiad, y modd i atal neu amddiffyn yn erbyn y risgiau, y gweithdrefnau i'w dilyn os bydd perygl difrifol a buan, hunaniaeth personau cymwys a'r risgiau i waith unigolion eraill sy'n gweithio ar safleoedd y Cyngor?			
• Lle mae'r Cyngor, ag yntau'n gyflogwr, yn rhannu gweithle â chyflogwyr eraill, oes gweithdrefnau yn eu lle i sicrhau eu bod nhw'n cydweithio i sicrhau iechyd a diogelwch gweithwyr ei gilydd?			

	✓ Fel y bo'n briodol		
	Dd/ B	Do/ Ydy/ Oes	Nad do/ Nac ydy/ Nac oes
• Lle mae gweithwyr cyflogwyr eraill yn gweithio ar eiddo'r Cyngor, ydyn nhw'n cael gwybodaeth iechyd a diogelwch i sicrhau bod modd iddyn nhw weithio'n ddiogel?			
• Ydy'r gweithwyr yn cael hyfforddiant iechyd a diogelwch priodol ac oes tasgau yn cael eu rhoi iddyn nhw sydd y tu hwnt i'w gallu o ran iechyd a diogelwch?			
• Ydy'r gweithwyr dros dro yn cael gwybodaeth am unrhyw sgiliau, cymwysterau a gofynion arbennig er mwyn eu galluogi i wneud y gwaith yn ddiogel?			
• Ydy materion iechyd a diogelwch yn cael eu trafod gyda chynrychiolwyr diogelwch?			
• Ydy iechyd a diogelwch menywod o oed geni neu famau newydd a beichiog yn cael eu hystyried? (Dylid cyfeirio at HS8 – Menywod Beichiog yn y Gwaith).			
• A oes gweithdrefnau monitro ar waith i sicrhau bod gofynion y polisi yn cael eu bodloni?			

Wedi'i llenwi gan: _____ (Llofnod)

Enw: _____ (Llythrennau bras)

Swydd: _____

Dyddiad: _____

Wedi'i gadarnhau gan: _____ (Llofnod)

Enw: _____ (Llythrennau bras)

Swydd: _____

Dyddiad: _____